# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

## Ysgol Gynradd Y Felinheli
## Y Wern
## Felinheli
## Gwynedd
## LL56 4TZ

**Rhif yr Ysgol: 6612127**

**Dyddiad yr Arolygiad: 11 Tachwedd 2008**

**gan**

**Len Jones**
**16360**

**Dyddiad Cyhoeddi: 16 Ionawr 2009**

**O dan rif contract Estyn: 1100708**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 1: Da gyda rhai nodweddion rhagorol**

104. Mae'r profiadau dysgu eang a gaiff y disgyblion yn hyrwyddo'n llwyddiannus eu datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol, gan greu ynddynt ymdeimlad clir o gyfrifoldeb at yr ysgol eu hamgylchfyd a'r gymuned. Drwy weithgarwch 'amser cylch' rhoddir pwyslais llwyddiannus ar sicrhau bod disgyblion yn gwrtais tuag at ei gilydd a gyda staff ac ymwelwyr. Maent yn ymwybodol o'r angen i helpu eraill a chodir ymwybyddiaeth disgyblion am bobl llai ffodus. Casglant arian a chyfrannu at achosion da yn rheolaidd, megis ar gyfer prynu rhwydi malaria yn Nigeria ac at Operation Christmas Child. Hyrwydda'r ysgol ddatblygiad diwylliannol y disgyblion mewn ffordd weithredol drwy drefnu ymweliadau gan feirdd, artistiaid a chwmnïau drama, ac yn y modd mae'r ysgol yn cyfrannu mewn achlysuron cymunedol diwylliannol.

105. Hyrwyddir datblygiad ysbrydol y disgyblion yn yr addoliadau ar y cyd, ac mae'r rhain yn cyfarfod â'r gofynion statudol. Er hyn, ni welwyd yn ystod yr arolygiad yr elfen ysbrydol yn cael ei hamlygu'n ddigonol ymhob sesiwn addoli ar y cyd, na chyfle i ddisgyblion fyfyrio'n bersonol.